

Croeso i'r arddangosfa heddiw a diolch i chi am ddod

Yr hyn a welwch yma heddiw yw gwybodaeth am ein cynlluniau ar gyfer adfywio'r Ganolfan Ddinesig.

Datblygwyd y cynigion gan Urban Splash, fel partner datblygu strategol Cyngor Abertawe.

Mae'r cynigion ar hyn o bryd yn mynd drwy'r broses ymgynghori statudol cyn-ymgeisio, cyn cyflwyno cais cynllunio llawn.

Mae adfywio'r Ganolfan Ddinesig yn gam pwysig yn y broses barhaus o drawsnewid y ddinas.

Bydd arddangosfa heddiw yn esbonio mwy am:

- Ein cais cynllunio arfaethedig ar gyfer dyfodol y Ganolfan Ddinesig
- Sut mae'r adeilad hwn yn cyd-fynd ag adfywiad ehangach y ddinas
- Manylion am gam cyntaf Ffordd i'r Môr a chynigion tir y cyhoedd
- Manylion dyluniad ac edrychiad yr adeilad ei hun
- Manylion yr acwariwm arfaethedig

Gobeithio y byddwch yn hoffi'r hyn a welwch ac edrychwn ymlaen at glywed eich barn am y cynlluniau.



Y Ddinas ar y Traeth

Y Ddinas ar y Traeth yw gweledigaeth ar y cyd Urban Splash a Chyngor Abertawe. Gweledigaeth sy’n dathlu cyfuniad unigryw’r ddinas o fywyd trefol a harddwch naturiol.

Yn ogystal â’r traeth, mae tirweddau sydd ag arwyddocâd cenedlaethol yn amgylchynu’r ddinas - Penrhyn Gŵyr, Bannau Brycheiniog, Cwm Tawe a Sir Benfro ymhellach draw. Wrth galon hyn i gyd mae dinas fywiog, gryno, hygyrch i gerddwyr, sy’n canolbwyntio ar iechyd, llesiant a chynaliadwyedd.

Nid oes gan bob dinas draeth, ac mae gan Abertawe draeth helaethach na Brighton a Barcelona gyda’i gilydd. Wrth gwrs y mae’n braf cael rhywbeth o’r fath, ond mae’n llawer mwy na hynny. Mae’n fantais nad oes gan y rhan fwyaf o ddinasoedd. Mae yna lond llaw yn Ewrop a chwpl yn y DU. Yn yr ymdrech i gadw’r bobl orau, denu’r swyddi gorau a darparu’r ansawdd bywyd gorau, mae gan Abertawe fantais bum milltir o hyd, oherwydd os gallwch fyw yn unrhyw le beth am fyw yn y ddinas ar y traeth.

Gallwch ddarllen mwy am Y Ddinas ar y Traeth, ein gweledigaeth ar gyfer Abertawe, yma.



Glannau'r Ddinas

Cyrchfan o safon fyd-eang ac ardal glan môr ddinesig newydd ar gyfer Abertawe, lle mae'r ddinas yn cwrdd â'r traeth.

Bydd prosiect arfaethedig Glannau'r Ddinas yn cynnwys cyrchfan newydd sbon ar lan y dŵr i drigolion ac ymwelwyr ymgynnull, ymlacio a mwynhau golygfeydd godidog Bae Abertawe. Gan eistedd ar ben draw Ffordd i'r Môr, sydd newydd gael ei chreu, ac yn cysylltu canol y ddinas a'r Arena yn uniongyrchol â'r traeth, bydd adeilad y Ganolfan Ddinesig, sydd wedi'i ailddyfeisio a'i addasu, yn ganolbwynt bywiog i'r ardal newydd, ac yn cynnwys mannau i fwyta, yfed a chael eich diddanu, gan gynnwys hyd at 150,000 troedfedd sgwâr o le masnachol a hyd at 600 o gartrefi. Bydd caffis, barrau a siopau newydd ar y lloriau gwaelod, gyda fflatiau, gofod gweithio, acwariwm, a lleoliad digwyddiadau i gyd yn rhan o'r cymysgedd hefyd. Bydd yn lle unigryw ble mae'r ddinas wir yn cwrdd â'r traeth. Bydd y gwaith o ailbwrpasu'r ganolfan ddinesig yn cefnogi'r broses o fywiogi'r traeth ar gyfer pob cymuned.

Delwedd gyfrifiadurol yn dangos y Ganolfan Ddinesig yng nghyd-destun Prif Gynllun ehangach Glannau'r Ddinas.





Blaendraeth a'r uw-chgynllun ehangach


Mae'r Ganolfan Ddinesig yn rhan o flaendraeth ehangach Bae Abertawe, sy'n ffurfio porth amlwg a phwysig ar hyd parth adfywio sy'n ymestyn o'r Mwmbwls i'r Marina.

Mae blaendraeth Bae Abertawe yn cynnig amrywiaeth o fannau, defnyddiau, amgylcheddau naturiol a thiroedd trefol. Mae'r Ganolfan Ddinesig yn nodi'r pwynt sy'n pontio i mewn ac allan o'r ddinas.

Catalydd bywiog ac adeg dyngedfennol



Bydd y Ganolfan Ddinesig yn ganolbwynt i brosiect adfywio ehangach, gan ddarparu tua 600 o gartrefi newydd ar lan y dŵr, datblygiad masnachol a hamdden a llwybrau newydd a gwell i'r traeth a Chanol y Ddinas.



Adeilad y Ganolfan Ddinesig yw calon yr uwchgyllun a dyma ffocws y cais cynllunio cyntaf. Bydd ceisiadau dilynol yn cael eu cyflwyno ar blotiau cyfagos, gan greu cymuned newydd ar lan y môr a chyrchfan hamdden ar gyfer y ddinas, sy'n cyd-fynd â Chynllun Datblygu Lleol y Cyngor.

Y Ganolfan Ddinesig a’r Datblygiad Arfaethedig

Wedi’i adeiladu rhwng 1979-84, mae’r adeilad yn 4 i 6 llawr o uchder gyda chynllun cymhleth a llawr gwaelod isaf sy’n dod yn islawr llawn ar yr ochr ddeheuol.

Mae cladin yr adeilad yn cynnwys paneli concrit mawr wedi’u rhag-gastio sy’n gorffwys ar ymylon slabiau. Mae’r paneli mewn cyflwr teg, gyda rhai arwyddion o ddirywiad ar yr ymylon.

Yn gyffredinol, mae’r adeilad wedi’i gynllunio’n dda, yn gadarn ac mewn cyflwr da am ei oedran.




Byddai’r datblygiad arfaethedig yn aildddefnyddio’r Ganolfan Ddinesig bresennol yn ei chyfanrwydd, gan arbed llawer o garbon, gan sicrhau defnydd masnachol ar y llawr gwaelod, gan gynnwys acwariwm, defnydd adwerthu (bwyd a diod yn bennaf) a hamdden. Ar y lefelau uchaf, byddai’r lloriau’n cael eu troi’n gartrefi preswyl, gan greu hyd at 138 o gartrefi newydd gyda pheth defnydd masnachol wedi’i gynnig ar y lloriau uchaf yn yr atriwm..

Ar y ffasâd deheuol, byddai unedau adwerthu yn agor allan ar deras newydd, gan ddarparu seddi allanol ac ardal lawnt wedi’i thirweddu, yn arwain at y traeth. Byddai llwybr yr arfordir yn cael ei uwchraddio a’i ledi.


Byddai’r fynedfa ogleddol bresennol yn cael ei chadw fel y prif bwynt mynediad i’r adeilad, er bod y trefniadau mynediad yn cael eu diwygio i greu mynedfa fwy clir. Byddai’r adeilad hefyd yn cynnwys cyfres o fynedfeydd ar wahân i’r mannau preswyl a mynedfa ddynodedig ar gyfer yr acwariwm. Byddai’r atriwm presennol yn cael ei drefnu i weithredu fel cyrchfan adwerthu a hamdden a chyswllt o ganol y ddinas i’r traeth.

Bydd llefydd parcio i raddau helaeth yn cael eu darparu yn y mannau parcio presennol ar yr wyneb.




Tir y Cyhoedd a symudiad

Tir y cyhoedd a chyfleoedd tirwedd



Cyfoethogi'r amgylchoedd tuag at Fae Abertawe sy'n cysylltu'r Ganolfan Ddinesig â'r traeth.



Creu cysylltiadau croesawgar a hygyrch â'r Dwyrain a'r Gorllewin o Heol Ystumllwynarth.



Dathlu'r tiffurfiau tonnog.



Ffryntiad yn llawn egni chwarae a pherfformio.

Bydd y tir cyhoeddus arfaethedig yn creu amrywiaeth o fannau i ymwelwyr a thrigolion eu defnyddio. Mannau yn cynnwys lawntiau i'w defnyddio'n achlysurol a chynnal digwyddiadau, cyfleusterau cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr y traeth, mannau chwarae a chreu yn ogystal â chytiau traeth.

I'r de, bydd tir y cyhoedd yn creu llwybrau hygyrch sy'n cysylltu'r Ganolfan Ddinesig â blaen y traeth.

Bydd y dull gweithredu ynghylch tir y cyhoedd yn haenog, er mwyn creu mannau ar gyfer pob defnydd yn ystod

gwahanol adegau o'r flwyddyn - gan newid o'r ymyl adwerthu i flaen y traeth.

Bydd llwybr yr arfordir yn cael ei ledu a'i wella ar hyd ffryntiad y Ganolfan Ddinesig - yn unol â gwelliannau diweddar yn y Mwmbwls.

Agwedd allweddol ar y cynnig yw cam cyntaf Ffordd i'r Môr, sef llwybr teithio llesol i'r gogledd-ddwyrain o'r adeilad, a gynlluniwyd i wella cysylltedd rhwng canol y ddinas a'r glannau, ac yn uniongyrchol at fynedfa'r Ganolfan Ddinesig.



CYTIAU
TRAETH



MANNAU
CREU




Y LAWNT



CYFLEUSTERAU
TRAETH A
THWRISTIAETH



GOFOD
DRWY GYDOL
Y FLWYDDYN



LLWYBRAU
CHWARAE



CHWARAE
NATURIOL



YMYLON
SEDDI



PROMENÂD
A RENNIR





LLEDU'R
PROMENÂD

Atriwm a Siambr

Rhagwelir y bydd yr atriwm yn ardal ddeinamig i bobl Abertawe ryngweithio ac ymgysylltu â rhaglenni diwylliannol a gweithgareddau hamdden.

Mae'r atriwm hefyd yn cysylltu â de yr adeilad a'r mannau masnachol sydd ar ei berimedr.

Mewn cyfnodau o dywydd garw a thymhorau oerach, bydd yr atriwm yn cynnig lle sych a chynnes i'r gymuned gyfarfod, gweithio, bwyta a chael ei hadlonni gyda'i gilydd.



Mae'r siambr yn cynnig cyfle i raglennu digwyddiadau, boed hynny'n sinema, sgysiau neu weithgareddau lles, neu ddod yn rhan o gynnis masnachol sy'n darparu cyfleusterau cynadledda neu briodasau gydag arlwy a llety i gefnogi'r pecyn.

Mae gan y lle gwag y tu allan i'r Siambr y potensial i ddarparu mannau ategol a chefnogol ar gyfer y defnyddiau masnachol a diwylliannol a allai lenwi'r Siambr.

Adwerthu, Hamdden a Blaen y Traeth



Mae'r llawr gwaelod yn cynnig cyfle i greu ffryntiad gweithredol drwy integreiddio mannau defnydd cymysg fel bwytai, caffis a siopau sy'n ymestyn i dir y cyhoedd ar hyd y ffin ddeheuol, gan greu glan y môr bywiog a diddorol.

Mae ffryntiadau gwydrog, ardaloedd masnachu allanol hyblyg, a thirweddau meddal ledled y safle yn annog rhyngweithio cymdeithasol, yn hybu ymwelwyr, ac yn cyfrannu at amgylchedd bywiog, diogel a chroesawgar a allai gefnogi bywyd cymunedol a gweithgarwch economaidd.

Nod y strategaeth dirwedd gyffredinol yw sefydlu cysylltiad cryf o'r tiroedd trefol i'r gogledd, drwy'r atriwm, i flaen y traeth i'r de.





Bydd cod dylunio yn cael ei sefydlu i reoli palet lliwiau, brandio a dodrefn i sicrhau bod amgylchedd allanol cyson a deniadol yn cael ei greu a'i gynnal.

Byddai cyfleusterau'n cael eu darparu ar gyfer defnyddwyr y traeth, gan gynnwys toiledau a chawodydd.

Mewn mannau eraill yn yr adeilad, y Ganolfan Ddinesig fydd cartref Acwariwm newydd y Ddinas.

Bydd cod dylunio yn cael ei sefydlu ac yn cael ei weithredu ar ôl rhoi caniatâd, drwy amod cynllunio, i reoli'r palet lliwiau, y brandio a'r dodrefn, er mwyn sicrhau bod amgylchedd allanol cyson ac esthetig ddymunol yn cael ei greu a'i gynnal.

Ffryntiad preswyl a masnachol





Cartrefi newydd

Ar y lefelau uchaf byddai'r datblygiad yn darparu hyd at 138 o gartrefi newydd. Cymysgedd o breswylfeydd 1, 2 a 3 ystafell wely, sy'n cynnig cymysgedd o olygfeydd o'r ddinas a'r môr.

Bydd llawer o'r cartrefi newydd yn cynnwys balconïau, a bydd ganddynt hefyd fynediad at ardd gymunedol fawr ar y to.

Bydd mannau parcio ar lefel yr wyneb yn cael eu darparu ar draws y safle, yn bennaf mewn ardaloedd lle mae mannau parcio presennol ar yr wyneb.



Dywedwch wrthym beth yw eich barn

Diolch am edrych
ar ein cynigion.

Mae croeso i chi ofyn unrhyw
gwestiynau i aelodau'r tîm yma
heddiw, a byddem yn ddiolchgar
iawn pe byddech yn llenwi ffurflen
adborth cyn i chi adael.



Diolch



Acwariwm y Ddinas

Bydd acwariwm newydd y ddinas wedi'i leoli yn adain ogledd-ddwyrain y Ganolfan Ddinesig, a fydd yn cael ei ymestyn bob ochr i greu lle ychwanegol i arddangos. Bydd yr Acwariwm yn cyfuno profiad acwatig byw gydag un digidol trochol o'r radd flaenaf.

Bydd ymwelwyr yn cyrraedd ar lefel y llawr gwaelod ar ben eithaf yr adain ogledd-ddwyrain, gan symud drwy'r adeilad a chodi i lefel yr atriwm. Bydd yr allanfa drwy'r atriwm, ac i mewn i'r ardal adwerthu, gan gynnig cyrchfan sy'n ategu defnyddiau arfaethedig eraill y Ganolfan Ddinesig.



Ffordd i'r Môr

**Yn dilyn adolygu'r adborth
o'r ymgynghoriad a'r
trafodaethau gyda'r Cyngor,
mae llwybr arfaethedig
Ffordd i'r Môr wedi newid.**

Yn hytrach na thorri llwybr lletraws o'r parc arena i'r traeth, bydd yn rhedeg ar hyd Heol Ystumllwynarth ac yna ar hyd ochr y Ganolfan Ddinesig. Mae'r newid o fudd i'r cynigion mewn nifer o ffyrdd:

- Bydd y rhan fwyaf o Ffordd i'r Môr nawr yn dod ymlaen fel rhan o'r cais cynllunio cychwynnol hwn, gan sicrhau seilwaith cyhoeddus newydd yn gynt.
- Mae'n creu mynedfa well i'r Ganolfan Ddinesig, gan wella darllenadwyedd y brif fynedfa a galluogi rhesymoli a gwella tirlunio, parth cyhoeddus a mannau gweithredol.
- Mae'n creu llwybr mwy uniongyrchol i'r traeth, gan wella'r ffordd y caiff yr unedau adwerthu arfaethedig i'r de-ddwyrain o ddatblygiad y Ganolfan Ddinesig eu rhoi ar waith.
- Mae'n rhesymoli'r uwchgynllun ehangach, gan greu plotiau datblygu mwy rhesymegol yn y dyfodol i'r dwyrain o'r ganolfan ddinesig.

